# Dinas a Sir Abertawe - Adroddiad Blynyddol Cynghorydd 2014-2015

Mae Adroddiad Blynyddol y cynghorydd hwn yn amlinellu ei gweithgareddau dros y flwyddyn a ddaeth i ben ar **18 Mai 2015**. Fe'i darperir er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid oes ganddo ddiben arall. Barn y cynghorydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid yw o anghenraid yn adlewyrchu barn Dinas a Sir Abertawe.

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Cynghorydd:** | Nick Davies | Adran Etholiadol: | Uplands |

## Adran 1: Gweithgareddau yn yr etholaeth

Ynghyd â'm cydweithwyr ward, cynhaliais gymorthfeydd misol ym Marchnad Uplands gan sicrhau gwelededd a phresenoldeb yn y gymuned leol. Mynychais gyfarfodydd PACT a chyfarfodydd eraill gyda'r heddlu, preswylwyr a masnachwyr lleol ac rwyf wedi bod yn cefnogi Cymdeithas Masnachwyr Uplands a sefydlwyd yn ddiweddar. Trefnais ddeisebau a gweithio gyda phreswylwyr yn erbyn cynyddu Tai Amlbreswyl yn y ward. Cefnogais bryderon preswylwyr a oedd yn erbyn cynigion i adeiladu tai yng Nghae Ganges. Cefnogais bryderon preswylwyr ynghylch cynnwys safle Campws Townhill yn y Cynllun Datblygu Lleol (CDLl).

## Adran 2: Presenoldeb y cynghorydd yng nghyfarfodydd penodol cyrff y cyngor

Un elfen bwysig yn unig o ddyletswyddau cynghorydd yw mynychu cyfarfodydd cyrff y cyngor. Mae cynghorwyr hefyd yn gweithredu drwy gynnal cymorthfeydd, mynd i gyfarfodydd ac ymateb i ymholiadau cyffredinol o'r adran etholiadol.

Dangosir isod % presenoldeb yn seiliedig ar aelodaeth pwyllgor.

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Pwyllgor Rheoli Datblygiad Ardal 1 | 6 | / | 7 | 86 | % |
| Fforwm Magu Plant Corfforaethol | 1 | / | 3 | 33 | % |
| Y Cyngor | 12 | / | 17 | 71 | % |
| Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd | 4 | / | 4 | 100 | % |
| Pwyllgor Rheoli a Rheolaeth Datblygu | 6 | / | 7 | 86 | % |
| Pwyllgor Cynghori'r Cabinet ar Leoedd | 4 | / | 4 | 100 | % |
| Pwyllgor y Rhaglen Graffu | 17 | / | 22 | 77 | % |
| Pwyllgor Cynghori'r Cabinet ar Wasanaethau | 3 | / | 3 | 100 | % |
| Fforwm Cyswllt Myfyrwyr Abertawe | 2 | / | 3 | 67 | % |
| Pwyllgor Archifau Gorllewin Morgannwg | 1 | / | 2 | 50 | % |
| **YN GYFFREDINOL** | **56** | **/** | **72** | **78** | **%** |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyfarfodydd Craffu: | | | | | |
| Panel Ymchwiliad Craffu Diwylliant Corfforaethol | 1 | / | 5 | 20 | % |
| Panel Ymchwiliad Craffu Cynhwysiad Addysg | 4 | / | 6 | 67 | % |
| Panel Ymchwiliad Craffu Cludiant Cyhoeddus | 1 | / | 1 | 100 | % |
| Panel Ymchwiliad Craffu Strydlun | 2 | / | 3 | 67 | % |
| **YN GYFFREDINOL** | **8** | **/** | **15** | **53** | **%** |

# Dinas a Sir Abertawe - Adroddiad Blynyddol Cynghorydd 2014-2015

**Adran 3: Rôl a chyfrifoldebau'r cynghorydd**

Cymerais rôl flaengar o ran materion beicio, gan weithio gyda grwpiau, megis Sustrans a Wheelrights, i geisio cyflawni rhwydwaith beicio integredig gwell.  Roeddwn yn Is-gadeirydd Pwyllgor Cynghori'r Cabinet ar Wasanaethau a oedd yn ystyried materion Cludiant.  Roeddwn yn gynrychiolydd y cyngor ar Fwrdd Canolfan yr Amgylchedd a Chanolfan Gymunedol Brynmill.  Roeddwn yn Gadeirydd y Llywodraethwyr yn Ysgol Gynradd Brynmill ac yn gwirfoddoli ar ddiwrnod Marchnad Uplands.

**Adran 4: Mentrau a Gweithgareddau Arbennig**

Ynghyd â chydweithwyr yn wardiau Uplands a'r Castell ac Aelodau Cynulliad Abertawe rwyf wedi parhau ag ymdrechion i gyfyngu ar nifer y tai amlbreswyl a mynd i'r afael ag effeithiau tai amlbreswyl a gaiff eu rheoli'n wael.  Rwyf wedi parhau i fonitro effeithiolrwydd côd gwirfoddol i gyfyngu ar nifer yr arwyddion "To Let" â'r nod o gael pwerau mwy cadarn os oes angen.

**Adran 5: Dysgu a Datblygu**

**Adran 6: Gweithgareddau a materion eraill**

Bûm yn parhau i gefnogi buddiannau preswylwyr Uplands i sicrhau bod y ward yn lle da i fyw, i weithio, i siopa ac i gymdeithasu ynddo.  Ymdrechais i gadw'r cydbwysedd rhwng buddiannau preswylwyr, masnachwyr ac ymwelwyr er lles pawb.

**Adran 7: Taliadau Cydnabyddiaeth i Gynghorwyr**

Cyflog Sylfaenol: £13,300

Gellir gweld ffurflenni hawlio costau teithio a chynhaliaeth cynghorwyr yma:
http://democracy.swansea.gov.uk/ecCatDisplay.aspx?sch=doc&cat=13266&path=0&LLL=0

Gellir gweld treuliau a lwfansau blynyddol cynghorwyr yma:
http://democracy.swansea.gov.uk/ecCatDisplay.aspx?sch=doc&cat=13284&path=0&LLL=0

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | 01.10.15 |